Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

## Cytundebau a drafodwyd ar 15 Rhagfyr 2025

Ionawr 2026

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol yn y Chweched Senedd nad ydynt yn ymwneud â masnach.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Mae'r Pwyllgor yn trafod yr effaith ar Gymru yn sgil cytundebau rhyngwladol a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 ("Deddf 2010"). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.

**4.** Wrth drafod cytundeb rhyngwladol rydym yn ystyried y canlynol:

- a yw o fewn cymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 15 Rhagfyr 2025[1], trafododd y Pwyllgor bum cytundeb rhyngwladol a oedd wedi'u gosod yn ddiweddar yn Senedd y DU:

- Cytundeb ar Derfynu Cytundeb y DU a Bwlgaria ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau;
- Cyfnewid Nodiadau'r DU a Gwlad Pwyl i derfynu Erthygl 13 o'r Cytundeb ar Derfynu Cytundeb y DU a Gwlad Pwyl ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau;
- Cytundeb Cape Town 2012 ar Weithredu Darpariaethau Protocol Torremolinos 1993;
- Cytundeb y DU ac Oman ar Gyflogi Gwŷr a Gwragedd Cyflogeion Swyddogol; a
- Cytundeb y DU a Phortiwgal ynghylch Diogelu Gwybodaeth Gyfrinachol.

**6.** Gwnaethom gytuno i nodi'r cytundebau hyn er gwybodaeth yn unig.

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Rhagfyr 2025

# 2. Cytundebau wedi'u nodi er gwybodaeth

### Cytundeb ar Derfynu Cytundeb y DU a Bwlgaria ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau

**7.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 23 Hydref 2025. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 3 Rhagfyr 2025.

**8.** Amcan y cytundeb yw terfynu effaith Cytuniadau Buddsoddi Dwyochrog y partïon. Mae'r Cytundeb yn cynnwys darpariaethau diogelu buddsoddiad sy'n rhoi ymrwymiadau i fuddsoddwyr ar y driniaeth y gallant ddisgwyl ei chael mewn cysylltiad â buddsoddiadau sefydledig yn nhiriogaeth y wladwriaeth arall.

**9.** Mae'r darpariaethau hyn yn ceisio amddiffyn buddsoddwyr rhag triniaeth fympwyol, annheg a gwahaniaethol, yn ogystal â difeddiannu heb iawndal. Mae'r Cytuniadau hefyd yn cynnwys mecanwaith Datrys Anghydfodau Gwladwriaethau Buddsoddi sy'n rhoi mynediad i fuddsoddwyr at wasanaeth cymrodeddu annibynnol pe bai'r naill wladwriaeth neu'r llall yn torri ei rhwymedigaethau o dan y cytuniad.

**10.** Pwrpas y cytundeb yw terfynu cytundebau cytuniadau yn unol ag ymrwymiadau'r UE tra oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Yn 2020, cychwynnodd y Comisiwn Ewropeaidd achos tor rheolau yn erbyn y DU am fethu â gwneud hynny. O dan Gytundeb Ymadael y DU â'r UE, caiff y Comisiwn ddwyn achos yn erbyn y DU am hyd at bedair blynedd ar ôl diwedd cyfnod pontio Brexit (31 Rhagfyr 2024).

**11.** Ym mis Rhagfyr 2023, hysbysodd Llywodraeth y DU y Comisiwn am ei bwriad i derfynu ei 12 cytuniad ag Aelod-wladwriaethau'r UE.

**12.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys yr un wybodaeth am ymgysylltiadau datganoledig â chytundebau tebyg blaenorol, gan nodi:

> *"The policy content of the Termination Agreement is international investment which relates fully to a reserved matter. However, in view of the fact that the content of the UK-Bulgaria BIT potentially applies to treatment of Bulgarian investments by the Devolved Administrations, and to treatment in the Republic of Bulgaria of investors from the*

> *Devolved Administrations, the UK Government has informed the Devolved Administrations of this Termination Agreement".*[2]

**13.** Mae'r cytundebau yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol, sy'n fater a gedwir yn ôl fel y darperir gan baragraff 99 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae'r Cytundebau hefyd yn ymwneud â gwasanaethau ariannol, gan gynnwys buddsoddiadau, busnes a bancio, sydd hefyd yn fater a gedwir yn ôl o dan yr un ddarpariaeth yn Neddf 2006. Felly, gwnaethom gytuno i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

## Cyfnewid Nodiadau'r DU a Gwlad Pwyl i derfynu Erthygl 13 o'r Cytundeb ar Derfynu Cytundeb y DU a Gwlad Pwyl ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau

**14.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 23 Hydref 2025. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 3 Rhagfyr 2025.

**15.** Fel y cytundeb blaenorol, pwrpas y cytundeb hwn yw terfynu cytundebau cytuniadau buddsoddi dwyochrog yn unol ag ymrwymiadau'r UE tra oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae'r un egwyddorion ynghylch terfynu yn gymwys i'r cytundeb hwn fel yr amlinellir ym mharagraff 10.

**16.** Terfynodd Gwlad Pwyl gytuniad y DU a Gwlad Pwyl yn unochrog ar 22 Tachwedd 2019. Fodd bynnag, yn unol ag Erthygl 13 o gytuniad y DU a Gwlad Pwyl, parhaodd darpariaethau'r cytuniad hwnnw mewn grym ar gyfer y buddsoddiadau a wnaed tra oedd y cytuniad mewn grym am gyfnod o bymtheg mlynedd ar ôl y dyddiad terfynu. Mae'r cytundeb yn cynnwys y nodiadau a gyfnewidiwyd gan y DU a Gwlad Pwyl sy'n cynnwys y cynnig a'r datganiad derbyn i derfynu Cymal Machlud Erthygl 13.

**17.** O ran ymgysylltu datganoledig, mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys yr un wybodaeth â chytundebau tebyg blaenorol, gan nodi:

> *"The policy content of the Termination Agreement is international investment which relates fully to a reserved matter. However, in view of the fact that the content of the UK-Poland BIT potentially applies to treatment of Polish investments by the Devolved Administrations, and to*

[2] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Bwlgaria: Cytundeb ar Derfynu'r Cytundeb ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau yn Gilyddol, paragraff 10 (Saesneg yn unig)

*treatment in the Republic of Poland of investors from the Devolved Administrations, the UK Government has informed the Devolved Administrations of this Termination Agreement".*[3]

**18.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol, sy'n fater a gedwir yn ôl fel y darperir gan baragraff 99 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006, gwnaethom gytuno i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

### Cytundeb Cape Town 2012 ar Weithredu Darpariaethau Protocol Torremolinos 1993

**19.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 11 Tachwedd 2025. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 17 Rhagfyr 2025.

**20.** Pwrpas y cytundeb yw gweithredu safonau pysgota byd-eang gorfodol. Confensiwn Rhyngwladol Torremolinos er Diogelwch Cychod Pysgota 1977 oedd y Confensiwn rhyngwladol cyntaf ar ddiogelwch cychod pysgota, a fabwysiadwyd gan y Sefydliad Morol Rhyngwladol.

**21.** Gwnaeth Protocol 1993 ddiweddaru, diwygio ac amsugno Confensiwn 1977. Ei bwrpas oedd lleddfu'r problemau gweithredu a nodwyd yn 1977, ond arweiniodd hefyd at ragor o broblemau gweithredu. O ganlyniad, cytunwyd ar Gytundeb 2012 a wnaeth ragor o newidiadau ymarferol i hwyluso'r gwaith o'i ddwyn i rym a'i roi ar waith. Erbyn 2019, nid oedd y cytuniad wedi dod i rym ac ymunodd y DU â 47 o wladwriaethau eraill i sicrhau bod meini prawf penodol yn dod i rym erbyn dyddiad targed o 11 Hydref 2022.

**22.** Mae'r Memorandwm Esboniadol[4] yn esbonio bod y DU eisoes yn bodloni gofynion 2012 ac nad oedd wedi cytuno ar ofynion 1977 a 1993 am y rheswm hwn. Fodd bynnag, bydd cytundeb y DU yn helpu i gwrdd â'r trothwy gofynnol o wladwriaethau sydd eu hangen i'r cytundeb ddod i rym yn rhyngwladol, a'r gobaith yw y bydd cytundeb y DU yn annog Aelod-wladwriaethau eraill i wneud yr un peth. Mae nifer y gwladwriaethau wedi'i gyrraedd ond nid nifer y cychod cymwys (3,600). Ar hyn o bryd, mae gan y DU 126 o gychod cymwys.

[3] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Gwlad Pwyl: Cyfnewid Nodiadau ar Derfynu Effeithiau Cyfreithiol Parhaus Erthygl 13 o'r Cytundeb ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau yn Gilyddol, paragraff 10 (Saesneg yn unig)
[4] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Cytundeb Cape Town 2012 ar Weithredu Darpariaeth Protocol Torremolinos 1993 sy'n ymwneud â Chonfensiwn Rhyngwladol Torremolinos er Diogelwch Cychod Pysgota 1977

**23.** O ran ymgysylltu, mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y canlynol:

> *"The policy content of the 2012 Agreement is fishing safety, which relates fully to a reserved matter, with no implications for the Devolved Administrations, the UK Government has however notified the Devolved Administrations, Crown Dependencies and Overseas Territories of the intention to accede to the 2012 Agreement. The UK fishing industry will be informed about the accession."*[5]

**24.** Er bod materion tramor a chysylltiadau rhyngwladol yn faterion a gedwir yn ôl, nid yw dilyn a gweithredu cytundebau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig yn fater a gedwir yn ôl.

**25.** Er nad yw'r môr a physgodfeydd yn nyfroedd Cymru yn faterion a gedwir yn ôl, mae diogelwch pysgota yn fater a gedwir yn ôl. At hynny, mae'r cytundeb yn gymwys i gychod sy'n gweithredu ar y cefnfor. Mae safonau technegol a diogelwch cychod yn fater a gedwir yn ôl fel y darperir gan baragraff 120 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006. Felly, cytunodd y Pwyllgor i nodi'r cytundeb hwn er gwybodaeth yn unig.

## Cytundeb y DU ac Oman ar Gyflogi Gwŷr a Gwragedd Cyflogeion Swyddogol

**26.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 13 Tachwedd 2025. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 5 Ionawr 2026.

**27.** Bydd y cytundeb yn cefnogi staff diplomyddol y DU a'u dibynyddion ac yn gwella recriwtio, cadw a llesiant staff yn Llysgenhadaeth Prydain Muscat[6]. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio nad yw gwŷr a gwragedd staff diplomyddol yn gallu gweithio yn Oman oherwydd cyfraith Oman.

**28.** Mae'r cytundeb yn sicrhau cilyddiaeth i staff diplomyddol y DU a'u dibynyddion yn Oman ac yn dilyn cytundebau tebyg rhwng Oman ac UDA a'r Swistir.

---

[5] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Cytundeb Cape Town 2012 ar Weithredu Darpariaeth Protocol Torremolinos 1993 sy'n ymwneud â Chonfensiwn Rhyngwladol Torremolinos er Diogelwch Cychod Pysgota 1977, paragraff 10 (Saesneg yn unig)
[6] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Cytundeb y DU ac Oman ar Gyflogi Gwŷr a Gwragedd Cyflogeion Swyddogol, Paragraph 2 (Saesneg yn unig)

**29.** Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r cytundeb yn datgan y canlynol:

> *"The policy content of this Treaty is the exempt status of diplomatic dependents, with no implications for the Devolved Administrations, and the UK Government has not consulted the Devolved Administrations, Crown Dependencies or the Overseas Territories on the drafting of this Agreement."*[7]

**30.** Mae hyn yn wahanol i destun cytundebau tebyg blaenorol, sydd wedi esbonio eu bod yn ymwneud â materion tramor a pholisi cyflogaeth yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a'r gwasanaeth sifil, sy'n ymwneud yn llawn â mater a gedwir yn ôl, ond bod Llywodraeth y DU wedi hysbysu'r Gweinyddiaethau Datganoledig er hynny.

**31.** Mae'r cytundeb hwn yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol a pholisi cyflogaeth yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a'r gwasanaeth sifil. Mae'r rhain yn faterion a gedwir yn ôl, fel y darperir gan baragraffau 5 a 10 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006. Mae gwaith cyflogedig hefyd yn fater a gedwir yn ôl, yn amodol ar eithriadau cyfyngedig.

**32.** Gallai'r cytundeb hwn fod yn gymwys i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru sy'n gweithio yn swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru y rhoddir statws diplomyddol iddynt. Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth Cymru ei swyddfa ryngwladol ei hun yn Oman.

**33.** Cytunodd y Pwyllgor felly i:

- nodi'r cytundeb hwn er gwybodaeth yn unig;
- nodi'r dull gweithredu gwahanol o ran ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig; a
- monitro cytundebau tebyg yn y dyfodol a allai fod â goblygiadau i staff yn swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru.

## Cytundeb y DU a Phortiwgal ynghylch Diogelu Gwybodaeth Gyfrinachol

[7] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Oman: Cytundeb ynghylch Awdurdodi Cyflogaeth Gwŷr a Gwragedd Cyflogeion Swyddogol, paragraff 10 (Saesneg yn unig)

**34.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 1 Rhagfyr 2025. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 20 Ionawr 2026.

**35.** Mae'r cytundeb yn darparu sail gyfreithiol ar gyfer diogelu gwybodaeth gyfrinachol a gyfnewidir rhwng y DU a Phortiwgal, ond nid yw'n eu gorfodi i wneud hynny. Gallai gwybodaeth gyfrinachol gynnwys pynciau fel amddiffyn, gorfodi'r gyfraith, gwrthderfysgaeth a diogelwch.

**36.** Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r cytundeb yn datgan y canlynol:

> *"The policy content of this Agreement concerns protective security policy, which is a National Security matter. This relates to a reserved matter with no implications for the DAs, and the UK Government has not consulted the DAs on the drafting of this Agreement."*[8]

**37.** Mae'r cytundeb hwn yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Mae cysylltiadau rhyngwladol, sy'n cynnwys cysylltiadau â thiriogaethau y tu allan i'r DU, yn fater a gedwir yn ôl. Mae'r Cytundeb hwn â Phortiwgal yn ymwneud yn benodol â diogelwch cenedlaethol sy'n fater a gedwir yn ôl fel y darperir gan baragraff 32 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006.

**38.** Felly, cytunodd y Pwyllgor i nodi'r cytundeb hwn er gwybodaeth yn unig.

[8] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Portiwgal: Cytundeb ynghylch Diogelu Gwybodaeth Gyfrinachol, paragraff 10 (Saesneg yn unig)